


# Ganllaw Gyflym I Gymorth Swyddi a Gyrfaoedd



Ewch i [www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com) i chwilio ac ymgeisio am swyddi ym mhob maes gwaith ledled Cymru – mae rhywbeth i bawb!

## Hyfforddeiaethau

### PWY?

Pobl ifanc 16-17 oed sy'n byw yng Nghymru  
(neu 18 oed ac wedi gadael yr ysgol neu'r coleg)

### BETH?

Mae Hyfforddeiaeth yn cynnig lleoliad gwaith o ansawdd uchel gyda hyfforddiant. Mae tair lefel wahanol o Hyfforddeiaeth i sicrhau eich bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnoch i symud ymlaen: 'Ymgysylltu', 'Lefel 1' a 'Lefel 2 – Pont at Waith'.

### PAM?

Gallwch gael y cymorth, y sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen arnoch i gael gwaith cyflogedig, Prentisiaeth neu i gael addysg ar lefel uwch. Chwiliwch am hyfforddeiaethau yn [www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com)

## Twf Swyddi Cymru

### PWY?

Pobl ifanc 16-24 oed sy'n ddi-waith ac yn byw yng Nghymru

### BETH?

Mae Twf Swyddi Cymru yn cynnig cyfleoedd gwaith am 6 mis ble y gallwch fagu profiad gwerthfawr ac ennill o leiaf yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

### PAM?

Mae cael y swydd gyntaf hollbwysig honno'n gallu bod yn anodd os nad oes gennych brofiad. Mae Twf Swyddi Cymru yn rhoi cyfle i chi os ydych yn barod am waith ac angen magu profiad gwerthfawr. Chwiliwch am gyfleoedd Twf Swyddi Cymru ar [www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com)

## Prentisiaethau Apprenticeships

### PWY?

Pobl ifanc 16 oed a throsodd sy'n byw yng Nghymru

### BETH?

Prentisiaeth yw swydd sy'n cynnwys gweithio tuag at gymhwyster cydnabyddedig cenedlaethol. Mae tair lefel o Prentisiaeth: Prentisiaeth Sylfaen, Prentisiaeth a Phrentisiaeth Uwch, oherwydd bod angen lefelau gwahanol o gymwysterau ar gyfer swyddi gwahanol.

### PAM?

Mae bod yn brentis yn rhoi'r cyfle i chi ennill cymhwyster cydnabyddedig a datblygu sgil proffesiynol, yn ogystal ag ennill cyflog. Chwiliwch am Prentisiaethau ar [www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com)

## TUEDDIADAU SWYDDI

I gael gwybod pa ddiwydiannau sy'n tyfu yng Nghymru, lle mae'r swyddi, y cyflog a llawer mwy darllenwch ein cyfres "Golwg ar" i gael gwybodaeth a allai helpu i lywio eich dewisiadau gyrfa.

### Wyddech chi?

Bydd angen mwy nag  
**8,000** o Beirianwyr  
yng Nghymru erbyn  
**2022**  
(Working Futures  
2012-2022)

Mae'r cyflogau  
cyfartalog uchaf yng  
Nghymru yn y  
diwydiant TG  
(Llywodraeth Cymru, 2015)

Mae **11%**  
o'r gweithlu yng  
Nghymru yn cael ei  
gyflogi yn y maes  
Ynni a'r Amgylchedd  
(Llywodraeth Cymru, 2015)

I gael mwy o wybodaeth ewch i [gyrfacymru.com/tueddiadauswyddi](http://gyrfacymru.com/tueddiadauswyddi)

## CYMORTH GYDA CV

Oes angen cymorth arnoch i ysgrifennu eich CV? Defnyddiwch ein hadeiladydd CV yn yr adran Offer ac Adnoddau yn [www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com)



## SGILIAU I LWYDDO

Gallwch gael cymorth i wneud eich penderfyniadau gyrfa a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i ddod o hyd i swydd. Defnyddiwch yr Academi Sgiliau i Lwyddo, sef ein hofferyn hyfforddi rhyngweithiol, ar-lein. Bydd angen i chi gofrestru, felly cysylltwch â ni ar **0800 028 4844** neu ymwelwch ag un o'n Canolfannau Gyrfaedd.



I gael mwy o wybodaeth ewch i...

[www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com)

@gyrfacymru

/gyrfa\_cymru

@SwyddiGC

/gyrfacymru

**I gael gwybodaeth am dros 1400 o swyddi gwahanol**  
Chwiliwch am 'Chwiliad Gyrfa, Gyrfa Cymru' yn eich stôr Apiau

neu cysylltwch â ni ar

0800 028 4844

Sgwrs ar-lein

[post@gyrfacymru.com](mailto:post@gyrfacymru.com)

Gyrfa Cymru  
Careers Wales



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Cronfa Gymdeithasol Ewrop  
European Social Fund